# LANSIO GŴYL FACH Y FRO 2017!

Mae Menter Bro Morgannwg yn falch i gyhoeddi y bydd Gŵyl Fach y Fro yn dychwelyd unwaith eto i Ynys y Barri eleni – ar ddydd Sadwrn Mehefin 17eg.

Yn perfformio yn Gŵyl Fach y Fro 2017 bydd Bryn Fôn a'r Band, Candelas, HMS Morris, Eady Crawford, Band Nantgarw a Band Jazz Rhys Taylor. Hefyd, bydd cannoedd o blant o ysgolion Cymraeg y Sir yn camu i'r llwyfan i berfformio yn ystod y diwrnod, sy'n cael ei gyflwyno gan y DJs Elan Evans a Bethan Elfyn.

Bydd stondinau cynnyrch a chrefftau Cymreig gan ddarparwyr lleol yn yr ŵyl yn oystal ag ardal chwarae, beiciau bybls, sgiliau syrcas, wâc welis ar y traeth, gweithdai a gweithgareddau amrywiol gan bartneriaid Cymraeg yr ardal gan gynnwys Canolfan Cymraeg i Oedolion Bro Morgannwg, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin ac Adran Chwaraeon yr Urdd.

Mae'r ŵyl yn cynnwys bar bydd yn cael ei redeg gan y bragdy lleol Tomos & Lilford, a bwyd wedi'i arlwyo gan Grazing Shed, Pizza Ffwrnes a Bay 5.

Elfen hollbwysig i Gŵyl Fach y Fro yw ei fod yn ddigwyddiad rhad ac am ddim, mewn lleoliad unigryw, cyhoeddus a phoblogaidd ar Ynys y Barri, gan ei wneud yn ddigwyddiad hynod hygyrch i bawb; boed yn siaradwr Cymraeg, neu'n cael eu profiad cyntaf o'r iaith a'r diwylliant. Mae'r digwyddiad yn dechrau am 11.30am ac yn gorffen am 7pm.

Mae Gŵyl Fach y Fro yn derbyn cefnogaeth parhaus gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa Loteri Fawr.

Bydd modd i ymwelwyr wirio'r rhaglen a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gŵyl Fach y Fro ar wefan, tudalen Facebook, Twitter ac Instagram Menter Bro Morgannwg:

www.menterbromorgannwg.cymru
Facebook: Menter Bro Morgannwg
Twitter: @MIBroMorgannwg
Instagram: Menter Bro Morgannwg

*Nodiadau*

- *Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.*
- *Prif nod y Fenter yw i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ym Mro Morgannwg, ac i gynnig a chreu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol ac oriau gwaith.*